## PWYLLGORAU RHANBARTHOL DE DWYRAIN CYMRU

## MATERION YMARFEROL

Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2 mae’n ofynnol i bwyllgorau rhanbarth gyfarfod yn eu rhanbarthau o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yr oedd y papur a osodwyd gerbron cyfarfod llawn y Cynulliad ar 23 Mehefin yn cynnig y dylent gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, mewn gwahanol fannau yn y rhanbarth.

Gall y pwyllgor fabwysiadu nifer o wahanol ffyrdd o weithio:

- trafod papurau;
- cymryd tystiolaeth neu friffio llafar gan gyrff neu unigolion;
- deialog ar ffurf fforwm agored neu sesiwn holi ac ateb gyda’r cyhoedd ar dopig penodol;
- ymweliadau canfod ffeithiau.

Yn ogystal â’r cyfarfodydd ffurfiol llawn o’r pwyllgor, gellid ymgymryd yn ffurfiol â rhywfaint o’r gwaith hwn gan is-bwyllgor, neu’n anffurfiol gan dîm bach o aelodau.

### Dewis lleoliad

Dylai lleoliadau holl gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor gydymffurfio cyn belled â phosibl ag egwyddorion y Cynulliad ynghylch bod yn agored, yn hygyrch ac yn ddwyieithog.

Rhaid iddynt gydymffurfio â’r canlynol, o leiaf:

bod yn hygyrch i’r cyhoedd

- ar lwybr cludiant cyhoeddus
- mynediad i gadeiriau olwyn
- cyfleusterau dolen glywed
- cynnig lle digonol ar gyfer y cyhoedd

cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd neu’r gallu i ddarparu lle ar gyfer offer symudol

y gallu i dderbyn offer darlledu/recordio;

meddu ar gysylltiadau ffôn a Thechnoleg Gwybodaeth.

Yn ddelfrydol, dylai trefn seddi'r Pwyllgor fod yn hyblyg fel y gall y Pwyllgor gwrdd ar ffurf ystafell bwrdd, ymholiad neu theatr. Yn ymarferol, gall hyn fod yn anodd ei gyflawni.

Hwyrach, hefyd, y bydd yr aelodau am gael ystafell ar wahân lle y gallant gael te neu goffi cyn y cyfarfod.

Ar sail gwaith rhagarweiniol i nodi lleoliadau addas, cynigir bod y cyfarfodydd cyntaf yn cael eu cynnal yn y lleoliadau canlynol:

- Swyddfeydd y Cyngor, Merthyr Tudful
- Swyddfeydd y Cyngor, Casnewydd
- Swyddfeydd y Cyngor, Pont-y-pl
- Swyddfeydd y Cyngor, Glynebwy (Blaenau Gwent)
- Swyddfeydd y Cyngor, Pen-y-bont ar Ogwr
- Yr Hen Swyddfeydd Glo, Tredomen (Caerffili)
- Swyddfeydd y Cyngor, Y Barri
- Y Pafiliwn, Clydach Vale (Rhondda Cynon Taf)

Hyd yma swyddfeydd yr awdurdodau lleol yn unig sydd wedi eu hystyried fel lleoliadau posibl, ond bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliadau eraill maes o law.

Gellir symud cyfarfodydd yr is-bwyllgorau neu gyfarfodydd anffurfiol y tu allan i brif drefi'r rhanbarth, yn enwedig os yw'r pwyllgor yn ystyried mater neu ddimensiwn lleol. Gall cyfarfodydd o'r fath gael eu cyfuno ag ymweliadau â chyrff neu sefydliadau.

Dylai'r cadeirydd neu'r Pwyllgor ystyried a oes angen i leoliadau'r cyfarfodydd anffurfiol gydymffurfio â'r uchod yng ngoleuni natur y cyfarfod.

**Y Gyllideb**

Bydd gan y Pwyllgor gyllideb o £25,000 i dalu costau teithio i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor; costau llogi lleoliadau a chyfleusterau cysylltiedig; a chostau cyhoeddusrwydd.

**Y Wasg**

Yn ogystal â'r hysbysiadau arferol o fusnes y Cynulliad ar y Rhyngrwyd, hwyrach y bydd y Pwyllgor am gyhoeddi datganiad i'r wasg neu hysbysebu ei gyfarfodydd yn y wasg leol. Byddai hyn yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i waith y pwyllgor, yn enwedig i'r rhai hynny na allant gael mynediad i'r Rhyngrwyd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**SEWR-01-99 (p3)**

**PWYLLGORAU RHANBARTHOL DE DWYRAIN CYMRU**

**MATERION YMARFEROL**

Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2 mae’n ofynnol i bwyllgorau rhanbarth gyfarfod yn eu rhanbarthau o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yr oedd y papur a osodwyd gerbron cyfarfod llawn y Cynulliad ar 23 Mehefin yn cynnig y dylent gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn, mewn gwahanol fannau yn y rhanbarth.

Gall y pwyllgor fabwysiadu nifer o wahanol ffyrdd o weithio:

- trafod papurau;
- cymryd tystiolaeth neu friffio llafar gan gyrff neu unigolion;
- deialog ar ffurf fforwm agored neu sesiwn holi ac ateb gyda’r cyhoedd ar dopig penodol;
- ymweliadau canfod ffeithiau.

Yn ogystal â’r cyfarfodydd ffurfiol llawn o’r pwyllgor, gellid ymgymryd yn ffurfiol â rhywfaint o’r gwaith hwn gan is-bwyllgor, neu’n anffurfiol gan dîm bach o aelodau.

**Dewis lleoliad**

Dylai lleoliadau holl gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor gydymffurfio cyn belled â phosibl ag egwyddorion y Cynulliad ynghylch bod yn agored, yn hygyrch ac yn ddwyieithog.

Rhaid iddynt gydymffurfio â’r canlynol, o leiaf:

bod yn hygyrch i’r cyhoedd

- ar lwybr cludiant cyhoeddus
- mynediad i gadeiriau olwyn
- cyfleusterau dolen glywed
- cynnig lle digonol ar gyfer y cyhoedd

cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd neu'r gallu i ddarparu lle ar gyfer offer symudol

y gallu i dderbyn offer darlledu/recordio;

meddu ar gysylltiadau ffôn a Thechnoleg Gwybodaeth.

Yn ddelfrydol, dylai trefn seddi'r Pwyllgor fod yn hyblyg fel y gall y Pwyllgor gwrdd ar ffurf ystafell bwrdd, ymholiad neu theatr. Yn ymarferol, gall hyn fod yn anodd ei gyflawni.

Hwyrach, hefyd, y bydd yr aelodau am gael ystafell ar wahân lle y gallant gael te neu goffi cyn y cyfarfod.

Ar sail gwaith rhagarweiniol i nodi lleoliadau addas, cynigir bod y cyfarfodydd cyntaf yn cael eu cynnal yn y lleoliadau canlynol:

- Swyddfeydd y Cyngor, Merthyr Tudful
- Swyddfeydd y Cyngor, Casnewydd
- Swyddfeydd y Cyngor, Pont-y-pl
- Swyddfeydd y Cyngor, Glynebwy (Blaenau Gwent)
- Swyddfeydd y Cyngor, Pen-y-bont ar Ogwr
- Yr Hen Swyddfeydd Glo, Tredomen (Caerffili)
- Swyddfeydd y Cyngor, Y Barri
- Y Pafiliwn, Clydach Vale (Rhondda Cynon Taf)

Hyd yma swyddfeydd yr awdurdodau lleol yn unig sydd wedi eu hystyried fel lleoliadau posibl, ond bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliadau eraill maes o law.

Gellir symud cyfarfodydd yr is-bwyllgorau neu gyfarfodydd anffurfiol y tu allan i brif drefi'r rhanbarth, yn enwedig os yw'r pwyllgor yn ystyried mater neu ddimensiwn lleol. Gall cyfarfodydd o'r fath gael eu cyfuno ag ymweliadau â chyrff neu sefydliadau.

Dylai'r cadeirydd neu'r Pwyllgor ystyried a oes angen i leoliadau'r cyfarfodydd anffurfiol gydymffurfio â'r uchod yng ngoleuni natur y cyfarfod.

**Y Gyllideb**

Bydd gan y Pwyllgor gyllideb o £25,000 i dalu costau teithio i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor; costau llogi lleoliadau a chyfleusterau cysylltiedig; a chostau cyhoeddusrwydd.

**Y Wasg**

Yn ogystal â’r hysbysiadau arferol o fusnes y Cynulliad ar y Rhyngrwyd, hwyrach y bydd y Pwyllgor am gyhoeddi datganiad i’r wasg neu hysbysebu ei gyfarfodydd yn y wasg leol. Byddai hyn yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i waith y pwyllgor, yn enwedig i’r rhai hynny na allant gael mynediad i’r Rhyngrwyd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**